

NEWYDDLLEN

Y NEWYDDION DIWEDDARAF I HOLL STAFF Y BRIFYSGOL



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

GOLAU GWYRDD I BARC GWYDDONIAETH

Yn ei gyfarfod diweddar, rhoddodd Cyngor y Brifysgol sêl ei fendith ar broiect newydd o bwys – datblygu Parc Gwyddoniaeth yn Ynys Môn, dan arweiniad y Brifysgol.

Ar ôl archwilio'r cynnig yn fanwl, cytunodd y Cyngor i sefydlu is-gwmni, sef 'Parc Gwyddoniaeth Menai Cyf', yn llwyr ym mherchnogaeth y Brifysgol, i fwrw ymlaen â'r datblygiad a'i reoli. Yn awr, llunnir trefn lywodraethol fanwl, a chymerir camau i benodi Rheolwr-Gyfarwyddwr ar y cwmni. Mae dadansoddiad risg llawn, ynghyd â chynllun clir ar gyfer y Parc Gwyddoniaeth, hefyd ar y gweill.

Nid cysyniad newydd mo'r 'Parc Gwyddoniaeth'; ceir mwy na 100 yn y DU, ac mae llawer wedi'u creu mewn gwledydd eraill ers i'r cyntaf gael ei sefydlu ym Mhrifysgol Stanford yn UDA fwy na 50 mlynedd yn ôl. Yn syml, mae'r cysyniad yn ymwneud â chreu lle sy'n cysylltu ymchwil



Llun Jamie Hogan

academaidd blaengar a datblygiadau masnachol er budd yr economi yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae Gogledd-Orllewin Cymru, ac yn enwedig Ynys Môn, mewn lle da i gael budd o gyfuniad o ffactorau – y buddsoddiad mawr a ragwelir mewn projectau ynni carbon isel a dynodiad y Parth Menter ac, wrth reswm, Prifysgol gerllaw a'i sefydliadau cyfrannog.

Bydd Parc Gwyddoniaeth Menai yn canolbwyntio ar feysydd academaidd technoleg lân, ynni glân a systemau glân – sy'n gysylltiedig â Pharth Menter Môn, ac sydd hefyd yn rhoi

cyfleoedd cydweithredol ar gyfer sawl Ysgol o fewn y Brifysgol.

Cefnogir y project trwy £10M o gyllid cyfalaf o Lywodraeth Cymru, a chyllid refeniw o £250k yn y flwyddyn gyntaf, ynghyd â disgwyliad am fwy o gyllid refeniw am y 3 blynedd nesaf.

Meddai'r Is-Ganghellor, Yr Athro John G Hughes: "Mae hwn yn gyfle heb ei ail, ac mae'n bleser gan y Brifysgol chwarae rhan lawn a gweithgar. Mae adfywio economaidd yn hollbwysig i'r rhan hon o Gymru, a bydd y Brifysgol yn ymdrechu i'r eithaf i wneud y fenter hon yn llwyddiant mawr" ■

DYFARNU YSGOLORIAETH YMCHWIL GWADD PWYSIG I ATHRONYDD



Dyfarnwyd grant *Mythos* o \$4,500 i Dr Lucy Huskinson, uwch ddarlithydd yn yr Ysgol Athroniaeth a Chrefydd iddi wneud ymchwil pellach i ffenomenoleg pensaernïaeth a dylunio trefol yn yr *Opus Archives and Research Centre*, yn Santa Barbara, yr Unol Daleithiau.

Defnyddir rhywfaint o'r wobwr ariannol i drefnu'r gynhadledd, *City Margins*,

City Memories (Ebrill 2014) y mae'n ei threfnu gyda chydweithwyr yn yr Ysgol Ieithoedd Modern. Cyhoeddwr ei monograff, *Architecture of the Psyche: how buildings make and break our lives* gan Routledge: London and New York (2014) ■

BRAF CWRDD Â
Tracy Williams
p03

CYMRODORIAETHAU
ER ANRHYDEDD
p05

GWOBRAU
DYSGU
p06

DYRCHYFIADAU
STAFF
p07

EVEREST
60 mlynedd
p08

NEWYDDION
CYNGRHAIR
STRATEGOL p11



UNIVERSITY CHALLENGE

Am y tro cyntaf ers mwy na 10 mlynedd, llwyddodd tîm o Brifysgol Bangor i gyrraedd rownd gynderfynol *University Challenge*, yn 50 mlwyddiant y rhaglen gwis fwyaf anodd sydd ar y teledu. Prifysgol Manceinion oedd yn wynebu Prifysgol Bangor nos Lun 22 Ebrill.

Meddai Antony Butcher, Llywydd Undeb Myfyrwyr

Prifysgol Bangor, "Mae'n ardderchog gweld bod Bangor wedi mynd ymlaen mor bell â hyn yn y gyfres yma – yr unig brifysgol o Gymru i wneud hynny. Maen nhw'n sicr wedi dod â chlod i Fangor."

Nina Grant, (Ffrangeg ac leithyddiaeth), capten; Simon Tomlinson, (Seicoleg); Mark Stevens, (Gwyddorau Amgylcheddol); Adam Pearce (Astudiaethau Cyfieithu) ac aelod wrth gefn Catriona Coutts oedd

Tîm Bangor yn ystod y gystadleuaeth. Meddai Capten y Tîm, Nina Grant, "Mae hyn wedi bod yn brofiad anhygoel, 'doedd yr un ohonom yn sylweddoli wrth gychwyn y byddem yn cyrraedd mor bell ond rwy'n credu bod gan aelodau'r tîm ystod eang o wybodaeth."

1999 oedd y tro diwethaf i dîm o Fangor gyrraedd y rownd gynderfynol ■

CHWALU'R THEORI

Yn dilyn yr helbul ynghylch cig ceffyl a ddarganfuwyd ynghanol cigoedd eraill, edrychodd y rhaglen wyddoniaeth boblogaidd *Bang Goes the Theory* ar BBC ar sut y gellir defnyddio technegau genynnol (DNA) newydd i adnabod y pysgodyn ar eich plât. Trodd y sioe at Brifysgol Bangor am arbenigedd yn y maes hwn.

Yn y rhaglen, dangosodd yr Athro Gary Carvalho o'r Ysgol Gwyddorau Biolegol i'r gyflwynwraig Maggie Philbin sut y mae'r gallu i adnabod y pysgodyn mewn pastai yn fodd i ddiogelu'r prynwr a'r stociau pysgod yn ein moroedd.

Mae bron i chwarter y daliadau pysgod ar draws y byd yn digwydd yn anghyfreithlon. Mae'r gallu i nodi dalfeydd anghyfreithlon yn ôl rhywogaeth neu leoliad



Maggie Philbin a'r Athro Gary Carvalho.

y daliad yn cynnig ffynhonnell werthfawr newydd o offer fforensig i fynd i'r afael â labelu a physgota anghyfreithlon.

Fel yr esbonia'r Athro Carvalho: "Rydym wedi datblygu dull y gellid ei ddefnyddio ar draws y gadwyn cyflenwi bwyd ac ar draws y diwydiant pysgod, ac rydym wedi dangos ei effeithiolrwydd o ran pedair rhywogaeth sy'n gyffredin yn Ewrop.

"Gellir defnyddio'r dull hwn i adnabod neu gymharu cyfres o farcwyr

genynnol penodol mewn samplau o bysgod, a hynny ar unrhyw bwynt yn y gadwyn ddefnyddwyr, o'r rhwyd hyd at y plât, ac olrhain y pysgod i'w tarddle neu i'w grŵp bridio.

"Wrth i'r dull hwn gael ei ddefnyddio'n ehangach, bydd defnyddwyr yn gallu prynu pysgod, yn ffyddiog eu bod yn prynu neu'n bwyta'r cynnyrch a ddisgrifir ar y label neu'r fwydlen, a bod y nwyddau y maent wedi'u prynu'n dod o stociau cynaliadwy o bysgod" ■

BRAF CWRDD Â ...

TRACY WILLIAMS, CYNORTHWYWR ARLWYO



Yma mae Tracy yn dweud mwy wrthym amdani hi ei hun: Mae Tracy, sy'n dod o Fangor, wedi bod yn gweithio yn y Brifysgol ers 12 mlynedd. Ei swydd gyntaf oedd yn y neuaddau preswyl, yn gweini brechwast a chinio, ond erbyn hyn mae hi'n gweithio'n bennaf yng Nghaffi'r Teras ym Mhrif Adeilad y Celfyddydau ac mae hi'n cynorthwyo'n achlysurol gyda chynadleddau ac amrywiol ddigwyddiadau. Mae gan Tracy fab 14 oed, sef Jonathan, sy'n ddisgybl yn Ysgol Tryfan.

Beth ydych chi'n hoffi ei wyllo ar y teledu? Rwyf wrth fy modd yn gwyllo dramâu cyfnod, fel *Downton Abbey*, ac rwyf hefyd yn mwynhau gwyllo rhaglenni dogfen a ffilmiau ar y sianel hanes, *Yesterday TV*.

Beth yw eich hoff ffilm? Fy hoff ffilm erioed yw *An Officer and a Gentleman*.

Pa fath o gerddoriaeth ydych chi'n ei hoffi? Fy hoff gerddoriaeth yw *Soul* a *Motown*, nid oes gennyf hoff grŵp neu hoff ganwr, rwy'n mwynhau'r gerddoriaeth i gyd!

Ydych chi wedi cyfarfod â rhywun enwog yn un o ddigwyddiadau'r Brifysgol erioed? Rwyf wedi cwrdd â'r actor, Rhys Ifans, yn y digwyddiad ar ôl y seremoni i gyflwyno cymrodoriaeth er anrhydedd iddo yn ystod yr wythnos raddio yn 2007. Cefais ei lofnod a dywedodd wrthyf am beidio â'i werthu ar *eBay*! Ac yn ystod yr un wythnos raddio, gwnes gyfarfod lolo Williams, y cyflwynydd a'r

arbenigwr natur, roedd yn ddyn hyfryd! Daeth atom cyn gadael i ddiolch i ni am y pryd bwyd.

Beth ydych chi'n ei wneud yn eich amser hamdden? Rwyf wedi prynu sgwter yn ddiweddar - Vespa 125, ac rwyf newydd orffen yr hyfforddiant sylfaenol gorfodol - rwyf wedi bod eisiau gwneud hynny erioed. Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n reidio sgwter yn gorfod gwneud yr hyfforddiant sylfaenol gorfodol cyn mynd ar y ffordd fawr. Ar ôl i mi gael fy nhrwydded, byddaf yn mynd i raliâu sgwteri ledled gogledd Cymru ac yn mynd o amgylch y lle ar fy Vespa!

A oes gennyh unrhyw gynlluniau at yr haf? Ychydig o flynyddoedd yn ôl, prynais hen gaban ffôn coch sydd eisiau ei drin. Rwy'n bwriadu gwneud y gwaith trin gyda ffrind yn yr haf a rhoi system gerddoriaeth ynddo a'i gadw yn yr ardd. Wedyn pan fyddai'n cael barbeciw neu barti, bydd yr adloniant yno'n barod ■

PIGION TRYDAR



Dyma rai o'r pethau mae rhai o'n dilynwr wedi'u dweud ar Twitter

@CatrinSCS Mae @prifysgolbangor yn gwynebu rownd gogynderfynol #UniversityChallenge am 8yh heno ar BBC2 yn erbyn Coleg y Brenin, Caergrawnt. Pob lwc!

@AwelEvans Mynd i prifysgol Bangor fory i gymeryd rhan mewn diwrnod STEM & egni adnewyddadwy... Edrych ymlaen! #gwyddoniaeth

@colegcymraeg Diolch i fyfyrwr @prifysgolbangor am gymryd rhan yn fideos marchnata newydd i'r Coleg Cymraeg heddiw!

@elenois @BlodauCara Wrth fy modd! Wedi cael fy nerbyn i mynd i Clwb Gwyddoniaeth i merched yn @prifysgolbangor gyda @GyrfaCymru ■

DYFODOL DISGLAIR I GYMNASTEG YM MAES GLAS

Mae neuadd gymnasteg Canolfan Chwaraeon Maes Glas wedi cael ei hailwampio gyda chyllid a gafwyd gan Adran Ystadau.

Mae'r neuadd, oedd yn edrych yn hen ffasiwn a diflas, wedi ei gweddnewid. Mae goleuadau LED rhad-ar-yngni wedi cael eu gosod ac mae'r neuadd wedi cael ei phaentio yn lliwiau'r Brifysgol. Dyma'r unig neuadd gymnasteg barhaol i'r gorllewin o Lannau Dyfrdwy ac mae'r gwaith ailwampio'n sicr o wella'r profiad i bawb sy'n ei defnyddio. Yn ogystal â myfyrwyr, mae holl aelodau Clwb Gymnasteg Bangor (tua 150 ohonynt i gyd) yn defnyddio'r neuadd. Mae gan y clwb restr hir o bobl sy'n disgwyl ymuno â'r clwb.

Meddai Richard Bennett, Cyfarwyddwr Chwaraeon: "Rydym yn fodlon iawn efo'r gwaith ailwampio. Roedd y gwaith angen ei wneud yn



O'r chwith: Clive Jones, Rheolwr Cynorthwyol Gwaith Cynnal a Chadw; Sam Wallwork, Rheolwr Canolfan Maes Glas; Howyn Roberts, Peiriannydd Cynnal a Chadw.

ofnadwy ac rwy'n gobeithio bydd yn cynnig amgylchedd hyfforddi gwell i holl ddefnyddwyr y neuadd gymnasteg."

Dyweddodd Mike O'Connor, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ystadau ac Eiddo: "Mae'n wych o beth bod tîm cynnal a chadw'r ystâd wedi gallu gweithio gyda'r tîm ym Maes Glas ar y project yma. Mae'r goleuadau newydd a'r gwaith paentio wedi gwella'r argraff gyntaf a'r profiad

cyffredinol o hyfforddi yn y neuadd gymnasteg i fyfyrwyr a'r gymuned ehangach."

Yn dilyn y gwaith o ailwampio'r neuadd gymnasteg, bwriedir gwneud gwaith trin ar raddfa fwy ym Maes Glas a chaiff llawer o adnoddau'r ganolfan eu moderneiddio hefyd. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.maesglas2014.co.uk ■

HYRWYDDO EIN HANES A'N HETIFEDDIAETH

Mae ail gam y gwaith o drin Prif Adeilad y Brifysgol yn canolbwyntio ar fannau cyhoeddus yr adeilad (e.e. Neuadd Prichard-Jones, Neuadd Powis, Ystafell y Cyngor, y llyfrgell a'r archif, etc.) gyda'r bwriad o wneud yr adeilad yn fwy hygyrch a deniadol i'r cyhoedd trwy dynnu sylw at hanes ac etifeddiaeth y Brifysgol.

Mae'r syniad o greu 'canolfan ymwelwyr' ac adeiladu cyswllt rhwng y prif adeilad a'r Ysgol Cerddoriaeth ymysg y syniadau sydd dan ystyriaeth. Mae'r Brifysgol wedi comisiynu 'cynllun dehongli' a bwriedir hefyd gwneud cais am gyllid allanol i gyfrannu at gost y gwaith.

Yn y cyfamser, mae'r Brifysgol yn bwriadu dechrau ar y broses trwy enwi rhai o'r ystafelloedd yn y prif adeilad ar ôl unigolion amlwg sy'n gysylltiedig â hanes y Brifysgol. Dyma restr o'r ystafelloedd a'r enwau newydd dwyieithog a roddir iddynt yn 2013/14:

- Prif Ddarlithfa'r Celfyddydau: *Darlithfa Eric Sunderland*
- Darlithfa 1: *Ystafell J F Danby*
- Darlithfa 2: *Ystafell Brenda Chamberlain*
- Darlithfa 3: *Ystafell R T Jenkins*
- Darlithfa 4: *Ystafell Syr Ifor Williams*
- Darlithfa 5: *Ystafell A H Dodd*
- OSCR 1: *Ystafell R Williams Parry*
- OSCR 2: *Ystafell Kate Roberts*
- Ystafelloedd Cynhadledd y Teras: *Ystafelloedd Cledwyn*

Rhoddir gwybodaeth ym mhob ystafell yn egluro'r enw a ddewiswyd a bwriedir hefyd llunio a gosod gwell arwyddion a chyfarwyddiadau yn yr adeilad.

Meddai'r Cofrestrydd, Dr David Roberts: "Prif Adeilad y Brifysgol yw un o'n trysorau mwyaf - mae cynllun yr adeilad yn drawiadol iawn ac mae'n llawn hanes a chyfoeth diwylliannol. Nod y gwaith trin yw amlygu ein hanes a'n etifeddiaeth a'u cyflwyno i gynulleidfa llawer ehangach" ■

CYMRODORIAETHAU ER ANRHYDEDD 2013

Mae'n bleser gan y Brifysgol gyhoeddi enwau unigolion y bydd yn cyflwyno Cymrodoriaeth Er Anrhydedd iddynt yn 2013. Cyflwynir yr anrhydeddau hyn yn ystod Seremonïau Graddio'r Brifysgol, a gynhelir rhwng 13 a 19 Gorffennaf 2013. Dyma fydd y derbynwyr (yn nhrefn yr wyddor):

Geraint Talfan Davies

Cadeirydd, y Sefydliad Materion Cymreig – *am wasanaeth i fywyd cyhoeddus yng Nghymru.*

Dr Lyn Evans FRs

Ffisegydd, Pennaeth Project y Peiriant Gwrthdaro Hadron Mawr, CERN – *am wasanaeth i Wyddoniaeth.*

Dr Peter Florence

Sylfaenydd a Chyfarwyddwr Gŵyl y Gelli – *am wasanaeth i'r celfyddydau.*

Ann Griffiths

Telynores, athrawes a chyfansoddwraig – *am wasanaeth i Gerddoriaeth.*

Eric Hepburn

Yn raddedig o Ysgol Busnes Bangor; Prif Swyddog Gweithredol yn 10 Downing Street am 6 blynedd; yn awr yn Gonswl Cyffredinol Prydain, Washington – *am wasanaeth i fywyd cyhoeddus.*

Patrick Holdich

Â gradd mewn Hanes o Fangor; Conswl Cyffredinol Prydain ym Montréal – *am wasanaeth i fywyd cyhoeddus.*

Bryan Hope

Cyn Brif Beiriannydd, Cyngor Gwynedd; sylfaenydd Ymddiriedolaeth Ddiwydiannol Amlwch, ac awdur llyfrau ar fwyngloddiau copr Mynydd Parys – *am wasanaeth i gadwraeth treftadaeth ddiwydiannol.*

Tom James

Rhwyfwr, ac Enillydd Dwy Fedal Aur Olympaidd – *am wasanaeth i chwaraeon.*

Huw Jones

Cadeirydd S4C (Cyn Brif Weithredwr, cyflwynydd teledu a chanwr) – *am wasanaeth i ddarlledu.*

Paul Mealor

Cyfansoddwr, a anwyd yng ngogledd Cymru, ac a ysgrifennodd 'Wherever you are' ar sail llythyrau gan filwyr a oedd yn gwasanaethu yn Afghanistan (Rhif 1 Nadolig 2011 i *The Military Wives*) – *am wasanaeth i Gerddoriaeth.*

Yr Athro Mark Williams FBA

Athro Seicoleg Glinigol yn Rhydychen a arloesodd yn y gwaith o ddatblygu therapi gwybyddol ar sail ymwbyddiaeth – *am wasanaeth i seicoleg glinigol.*

Ar ben hynny, dewiswyd yr unigolion isod ar gyfer Cymrodoriaethau Er Anrhydedd mewn blynyddoedd blaenorol, ond ni allent ddod i'r seremoni; maent wedi dangos y byddant yn bresennol yng Ngorffennaf 2013:

Terry Hands – Cyfarwyddwr Clwyd Theatr Cymru yn yr Wyddgrug – *am wasanaeth i'r theatr.*

Terry Jones – actor (ag enwogrwydd Monty Python) awdur a chyfarwyddwr ffilmiau; yn dod o Fae Colwyn ac wedi chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o atgyfodi Theatr Colwyn – *am wasanaeth i ffilm, theatr a theledu.*

Ar ben hynny, bydd yr unigolyn canlynol yn cael ei Chymrodoriaeth ar ddyddiad i'w bennu:

Dr Meave Leakey – â gradd o Fangor, ac yn balaeontolegydd penigamp sydd wedi cyfrannu'n sylweddol iawn tuag at ein dealltwriaeth o ddechreuadau bywyd dynol – *am wasanaeth i wyddoniaeth.*

Bydd lluniau yn y rhifyn nesaf ■

OES GENNYCH CHI YSTAFELL SBÂR? A FYDDECH CHI'N GALLU RHOI LLE I FYFYRWYR AROS?

Bwriad cynllun *Homestay* yw rhoi lle cartrefol i fyfyrwyr sy'n byw oddi cartref am y tro cyntaf neu i fyfyrwyr rhyngwladol sydd eisiau aros gyda theulu lleol i wella eu sgiliau iaith a dysgu mwy am ddiwylliant Prydain. Gobeithir y bydd y rhaglen *Homestay* yn cael effaith gadarnhaol ar fyfyrwyr ac ar yr un pryd yn rhoi profiad gwerthfawr a boddhaol i'r un sy'n croesawu ac mae hefyd yn ffordd o gynyddu incwm y cartref. Bwriadwn ymweld â holl gartrefi *Homestay* i wneud yn siŵr eu bod yn addas, ac i archwilio eu cyflwr cyffredinol a'u cyfleusterau a holi ymhellach am amwynderau lleol a chysylltiadau teithio. Ni fyddwn yn cynnal unrhyw wiriadau cydymffurfio statudol, ond gallwn gyfeirio perchnogion at y corff perthnasol i gael rhagor o gyngor ar faterion o'r fath.

Os hoffech ragor o wybodaeth am gynnig llety o dan raglen *Homestay*, cysylltwch â swyddfa tai myfyrwyr y Brifysgol aos014@bangor.ac.uk ■

GWOBRAU DYSGU DAN ARWEINIAD MYFYRWYR



Cynhaliodd Undeb Myfyrwyr y Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr ynghyd â Gwobrau'r Cynrychiolwyr Cwrs yn ddiweddar yn Neuadd PJ, a hynny am yr ail flwyddyn.

Rhodddwyd y cyfle i fyfyrwyr enwebu unrhyw aelod o staff mewn ystod o gategoriâu'n amrywio o "Aelod Staff Cefnogi'r Flwyddyn" i "Athro'r Flwyddyn" a derbyniwyd ymron i 300 o enwebiadau, yn pontio'r holl ystod o safleoedd staff ac adrannau. Dywedodd Shôn Prebble, Is-lywydd Addysg a Lles Undeb Myfyrwyr: "Mae hwn yn gyfle gwych i fyfyrwyr gydnabod ymroddiad a gwaith caled y staff ym Mangor at wella eu profiad fel myfyrwyr. Mae'n gyfle i ddweud diolch. Cawsom enwebiadau gan bob un Ysgol yn ogystal â'r rhan fwyaf o adrannau gwasanaeth, ac roedd yn waith caled iawn i'r panel myfyrwyr ddewis rhai o'r enillwyr o'r rhestr fer."

Dywedodd yr Athro Carol Tully, Dirprwy Is-Ganghellor: "Mae'r Gwobrau Dysgu wedi bod yn llwyddiant enfawr eto eleni ac maent yn pwysleisio'r gwaith aruthrol a wneir gan aelodau'r staff drwy'r Brifysgol. Roedd yr enwebiadau'n deimladwy ac yn ysbrydoliaeth ac roedd yn hyfryd gweld cymaint o bobl yn cael eu cydnabod am eu gwaith rhagorol."

Yr Athro Oliver Turnbull yn cyflwyno'r 'Wobr Adran - Gwasanaeth i Fyfyrwyr' i Wendy Williams a Gwenda Blackmore o'r Uned Cefnogaeth Ariannol.

Llongyfarchiadau i'r enillwyr hynod deilwng:

Cynrychiolydd Cwrs y Flwyddyn

Nerys MacDonald (Yr Ysgol Ieithyddiaeth ac Iaith Saesneg)

Gwobr Arloesi Dr Pedro Telles (Ysgol y Gyfraith)

Gwobr am Hyrwyddo Addysg Cyfrwng-Cymraeg Ms Sian Beidas (Ysgol Ieithoedd Modern)

Gwobr Ryngwladol Ms Manuela Vittori (Canolfan Addysg Ryngwladol)

Gwobr Adborth Ardderchog Ms Lyle Skains (Ysgol Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau)

Gwobr Bywiogi Dysgu Mr Nigel Brown (Ysgol Gwyddorau Biolegol)

Gwobr Cefnogaeth Fugeiliol Eithriadol Mrs Gillian Griffith (Ysgol Cerddoriaeth)

Goruchwyliwr Traethawd Hir y Flwyddyn Yr Athro Judy Hutchings (Ysgol Seicoleg)

Gwobr Ymgysylltu â Myfyrwyr Dr Chris Collins (Ysgol Cerddoriaeth)

Gwobr Adran - Gwasanaeth i Fyfyrwyr Uned Cymorth Ariannol (Gwasanaethau Myfyrwyr)

Aelod Staff Cefnogi'r Flwyddyn Mrs Liz du Pre (Canolfan Dyslecsia Miles)

Athro Ôl-radd y Flwyddyn Mr Stephen Clear (Ysgol y Gyfraith)

Gwobr am Gyrhaeddiad Eithriadol Dr David Evans (Ysgol Cerddoriaeth) - derbyniwyd wedi ei farw gan ei fab

Athro Newydd y Flwyddyn Ms Thandiwe Gilder (Ysgol Seicoleg)

Athro'r Flwyddyn Dr Lucy Huskinson (Ysgol Athroniaeth a Chrefydd)

Lluniau i'w gweld ar bangor.ac.uk/newyddion ■

DYRCHAFIADAU STAFF

Unwaith eto, roedd y ceisiadau am swyddi Uwch Ddarlithwyr o safon eithriadol. Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod y panel wedi cytuno i ddyfarnu statws Uwch Ddarlithydd i'r unigolion canlynol:

Â PHWYSLAIS AR ADDYSGU A DYSGU



Enwebwyd **Dr Lorrie Murphy** o'r Ysgol Cemeg ar gyfer "Athro'r Flwyddyn" yng Ngwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr, 2012, a daeth yn aelod o

Academi Cymrodwr Dysgu'r Brifysgol yn 2009.



Ymunodd **Mrs Gillian Roberts** â'r Ysgol Astudiaethau Gofal Iechyd yn 2000. Yn ogystal â chyflawni ei swyddogaeth fel Cyfarwyddwr

rhwaglenni BSc ac MSc, hi hefyd yw'r Trefnydd Llwybr ar gyfer yr MSc mewn Ymarfer Clinigol Uwch.

Â PHWYSLAIS AR YMCHWIL



Mae dyrchafiad **Dr Thora Tenbrink**, o'r Ysgol Ieithyddiaeth ac Iaith Saesneg, yn bennaf â phwyslais ar ymchwil. Mae ei hymchwil

bresennol yn canolbwyntio ar fanyleb methodoleg CODA (*Cognitive Discourse Analysis*). Mewn mwy na 14 o gyhoeddiadau hyd yma, mae CODA yn ategu dirnadaethau ynglŷn â phrosesau gwybyddol gan ddadansoddi'r hyn y mae pobl yn ei ddweud yn ystod tasgau datrys problemau ac amgyffred.



Mae **Dr Enrico Onali** o Ysgol Busnes Bangor wedi cyhoeddi mewn cylchgronau o statws rhyngwladol. Mae ei ddiddordebau

ymchwil yn ymwneud â modelu ystadegol ar ddata cyllidol, bancio a chyllid corfforaethol. Yn ddiweddar, enillodd wobwr yr "Economegydd Ifanc Gorau" yn 20fed Gynhadledd Ryngwladol Tor Vergata, a bu'n ysgolhaig gwadd yn y Deutsche Bundesbank.



Ymunodd **Dr Keith Hughes** â'r Ysgol Cemeg yn 2003. Chwaraeodd ran allweddol wrth droi'r Ysgol o adran heb unrhyw addysgu cyfrwng-Cymraeg yn un

sydd bellach ar flaen y gad o ran datblygu strategaeth addysgu ddwyieithog genedlaethol mewn AU ym maes Cemeg. Mae ei ymchwil yn ymwneud â dynameg gwantwm-glasurol gymysg a dynameg an-Farcofaidd mewn systemau cemegol.



Mae **Dr Susan Johns** yn Gyfarwyddwr Addysgu a Dysgu yn yr Ysgol Hanes, Hanes Cymru ac Archaeoleg. Mae ei hail fonograff gyda Gwasg Prifysgol

Manceinion, sef *Gender, Nation and Conquest in the High Middle Ages: Nest of Deheubarth*, i'w gyhoeddi yn Nhachwedd 2013. Mae hi wrthi ar hyn o bryd yn cwblhau monograff arall ar sail canfyddiadau project *Seals in Medieval Wales* a gafodd £480k o nawdd gan AHRC.



Penodwyd **Dr Erin Heerey** i'r Ysgol Seicoleg yn 2006. Mae hi wedi cyhoeddi cryn dipyn o'i hymchwil mewn cylchgronau o ansawdd uchel

sy'n ddylanwadol yn ei maes. Mae ei diddordebau ymchwil wedi'u lleoli ar y gyffordd rhwng seicopathi, emosiwn, cymhelliant a gwybyddiaeth gymdeithasol.



Mae **Dr Siôn Williams** yn Ddarlithydd yn yr Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd ers 20 mlynedd. Yn sgil ei ymchwil gan ddefnyddio dulliau meintiol,

mae wedi datblygu modelau a theorïau arloesol sy'n darlunio, mewn modd unigryw, addasiad cymdeithasol at drawsnewidiadau a wynebwr gan bobl sy'n byw gyda chyflyrau tymor hir, yn cynnwys clefyd Parkinson a chyflyrau resbiradol.



Mae **Dr Myfanwy Davies** yn yr Ysgol Gwyddorau Cymdeithas wedi ennill mwy na £1.3 miliwn o gyllid tuag at ymchwil, gyda hanner miliwn fel

prif ymchwilydd. Mae ganddi broffil cenedlaethol fel arbenigwr ym maes polisi cymdeithasol, a hynny wedi'i adlewyrchu yn ei chyfraniadau fel Cadeirydd Bwrdd Cymru Gyfan ar Wyddorau Cymdeithas ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Ymunodd **Dr Mark Hagger** â'r Ysgol Hanes, Hanes Cymru ac Archaeoleg ym Medi 2007. Mae ei ymchwil presennol yn canolbwyntio ar ddugiaid a dugiaeth Normandi rhwng 911 a 1144. Ef yw awdur *William: King and Conqueror*, bywgraffiad hygyrch a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2012 ■

CYSWLLT COLL BANGOR Â CHONCR

Gan Dr David Roberts

Wrth inni gyrraedd 60 mlwyddiant concro Everest gan dîm a arweiniwyd gan bobl o Brydain, mae'n ddiddorol cofio cyswllt Bangor â'r digwyddiad dramatig hwn.

Roedd Charles Evans yn 35 oed pan ddaeth yn Ddirprwy Arweinydd ar daith enwog John Hunt ym 1953 i Everest. Wedi'i eni gwta ddeufis ar ôl i'w dad golli ei fywyd ar faes y gad yn y Rhyfel Byd Cyntaf, tyfodd Charles gyda'i fam, Edith, yn Nerwen ger Corwen yng ngogledd Cymru. Roedd yn Gymro uniaith hyd nes ei fod yn 6 blwydd oed, ond yn Lloegr yn bennaf y cafodd ei addysg – yn gyntaf yn Ysgol Amwythig, ac yna yn Rhydychen, lle astudiodd Feddygaeth. A'i ddiddordeb mewn mynydda wedi'i annog gan Feistr yn Ysgol Amwythig, ymunodd â Chlwb Mynydda Prifysgol Rhydychen, ac roedd wedi dringo'r Alpau erbyn 1939, yn ogystal â mynyddoedd yng Nghymru, yr Alban ac Iwerddon. Ar ôl ymgymhwyso, a gwasanaethu myrma yng nghorfflu meddygol y fyddin, symudodd i Lerpwl, i fod yn Gofrestrydd Llawfeddygol.

Fodd bynnag, y mynyddoedd oedd ei gariad cyntaf, ac ymunodd â Chlwb y *Wayfarers* yn Lerpwl a chael ei ethol i Glwb yr *Alpine* ym 1948.



Charles Evans

Buan yr enillodd enw da iawn fel mynyddwr, gan gymryd rhan mewn teithiau i Fynyddoedd Himalaia – i Annapurna (1950), Deo Tibba (1951) a Cho Oyu (1952). Yn ddydd tawel a phreifat, ymddangosai fel pe bai'n pelydru nerth a dewrder. Nid syndod oedd iddo gael ei ddewis yn Ddirprwy Arweinydd ar y daith i Everest. Ymhen llawer o flynyddoedd, ysgrifennodd Michael Westmacott, un o dîm Everest, fod

ei arweinyddiaeth yn ddiymhongar ond yn feistrolgar.

Cafwyd sawl taith i Everest yn y 1920au a'r 1930au, a George Mallory wedi diflannu am byth ar un ohonynt, ym 1924, i eira a niwl y mynyddoedd. Fodd bynnag, gwnaeth taith 1953 hanes. Tua diwedd Mai 1953, bron i fis ar ôl sefydlu'r Gwersyll Cychwyn, cyrhaeddodd y tîm Fwllch y De – ar 26,000 o droedfeddi ac, ar ôl croesi rhew ac eira peryglus, roedd hon yn gamp o bwys mawr. Y pryd hynny y dewisodd Hunt ddau dîm i fynd ymlaen at y copa. Charles Evans a Tom Bourdillon roddodd y cynnig cyntaf, ar 26 Mai 1953. Pan oeddent o fewn 300 troedfedd i'r copa, cymerodd Evans y penderfyniad tyngedfennol i droi'n ôl oherwydd diffyg ar yr offer ocsigen. Ymhen deuddydd, rhoddodd Edmund Hillary a Tensing Norgay ail gynnig arni – ac am 11.30am ar 29 Mai, hwy oedd y bobl gyntaf i gyrraedd y copa uchaf ar y ddaear.

DARLITHYDD Y GYFRAITH YN ENNILL GRANT

Mae Dr Yvonne McDermott, darlithydd yn Ysgol y Gyfraith, wedi ennill un o grantiau sgiliau meintiol yr Academi Brydeinig. Dyma'r tro cyntaf i'r grantiau gael eu cynnig ac roedd ugain ohonynt ar gael. Dyfarnwyd £9,983 i'w phroject, 'A Taxonomy of Evidence before the International Criminal Tribunal for the Former Yugoslavia', bydd y project yn dechrau ar 1 Medi 2013.

Mae'r grantiau sgiliau meintiol ar gael i gefnogi datblygiad ysgolheigion ar ddechrau eu gyrfa mewn swyddi academiaidd. Nod y grantiau hyn yw helpu ymchwilwyr

ar ddechrau eu gyrfa i ddatblygu a gwella eu sgiliau meintiol trwy eu galluogi i dreulio amser gyda mentor sy'n arbenigo yn yr un maes.

Nid oes llawer o ymchwil wedi ei wneud ar dystiolaeth mewn cyfraith droseddol ryngwladol, ac nid oes unrhyw astudiaethau meintiol wedi eu gwneud hyd yma sy'n dadansoddi'r mathau o dystiolaeth a ddefnyddiwyd mewn achosion troseddol rhyngwladol diweddar. Gan ddefnyddio sampl o bum treial sy'n rhychwantu'r cyfnod ers sefydlu Tribiwnlys Troseddol Rhyngwladol yr hen Iwgoslafia, bydd y project yn dosbarthu'r mathau o

dystiolaeth, megis tystiolaeth lafar, datganiadau ysgrifenedig gan dystion, tystiolaeth ddogfennol, trawsgrifiadau o achosion blaenorol a sylw barnwrol o ffeithiau sefydledig, a dderbyniwyd yn y tribiwnlys, a dadansoddi'r pwys a roddir ar yr amrywiol fathau o dystiolaeth.

Bydd y cyllid hwn yn galluogi Yvonne i ddysgu'r sgiliau meintiol sydd eu hangen arni i greu cronfa ddata i feintio'r mathau o dystiolaeth a dderbyniwyd yn y pum treial dan sylw, a'r pwys a roddwyd arnynt yn seiliedig ar nifer o newidynnau penodol. Penodwyd yr Athro John

0 EVEREST

Lluniau: Royal Geographic Society

Hon oedd oes aur mynydda, a phan dorrodd y newydd bedwar diwrnod yn ddiweddarach, cafodd anferth o gyhoeddusrwydd ar draws y byd – nid yn wahanol iawn i'r effaith a gafodd y glaniad ar y lleuad ym 1969. Cael eu croesawu fel arwyr oedd hanes tîm Everest pan ddychwelsant i Lundain. Urddwyd Hillary a Hunt yn farchogion a chafodd Tensing Fedal Siôr. Cynhaliwyd derbyniadau ym Mhalas Buckingham, yn Lancaster House ac mewn mannau eraill. Anrhydeddwyd y mynyddwyr lle bynnag yr aethant – ac eithrio Charles Evans, na ddychwelodd ar ei union i Lundain ond, yn hytrach, ac mewn modd nodweddiadol ohono'i hun, ymadael yn dawel am Nepal i wneud mwy o ddringo. "Fyddai dim gwahaniaeth gen i gael parti fy hun", ysgrifennodd at ffrind ar y pryd, "ond byddai'n well gen i fod ar y mynyddoedd."

Y flwyddyn ddilynol, arweiniodd Evans dîm i gopa Kangjenchunga, y trydydd copa i'r uchaf ar Fynyddoedd Himalaia, sef, yn ôl Jim



Charles Evans ac Edmund Hillary.

Perrin, y gamp fwyaf gan fynyddwyr o Brydain yn y ddegawd, o bosibl. Fodd bynnag, taith gan ddau ddyn i Annapurna IV ym 1957 fyddai taith olaf Charles Evans. Ym 1958, rhoddodd y gorau i feddygaeth i ddod yn Brifathro ar y Brifysgol ym Mangor ('Coleg Prifysgol Gogledd Cymru' fel yr oedd ar y pryd) – penodiad annisgwyl ar lawer i ystyr. Tua'r un adeg, dechreuodd ei alluoedd corfforol ddirywio; cafodd

ddiagnosis o sglerosis ymledol ac, o fewn ychydig flynyddoedd yn unig iddo ymgymryd â'i swydd, roedd yn defnyddio cadair olwyn yn gyson.

Deuai Charles Evans yn Llywydd ar Glwb yr 'Alpine' o 1967 hyd at 1970, ac urddwyd ef yn farchog ym 1969 ond, ac yntau ond yn 40 oed, roedd ei ddyddiau fel mynyddwr ar ben ■

Jackson o Brifysgol Nottingham, sy'n arbenigwr ym maes cyfraith tystiolaeth ac yn gyd-awdur yr astudiaeth fwyaf blaenllaw ar y llysoedd Diplock yng Ngogledd Iwerddon, yn fentor i Yvonne yn y project hwn. Bydd yr Athro Jackson yn rhoi cyngor ar gynllunio'r gronfa ddata ac ar y dulliau dadansoddi a bydd hefyd yn rhoi arweiniad ac adborth i Yvonne trwy gydol y project.

Meddai Yvonne: "Mae derbyn y wobr hon yn anrhydedd mawr. Dyma'r grant mawr cyntaf imi ei ennill ers cwblhau fy noethuriaeth ac rwy'n falch dros ben o gael cyfle i weithio ar bwnc mor ddiddorol a phwysig dan arweiniad mentor mor profiadol" ■



Dr Yvonne McDermott

Y GYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU YN PENODI CYMRODYR NEWYDD

Mae pedwar aelod o staff Prifysgol Bangor wedi'u hethol yn Gymrodyr o'r Gymdeithas Ddysgedig Cymru yn dilyn canlyniad Etholiad 2013 am Gymrodyr newydd.

Yr unigolion sydd newydd eu hethol yw:

Yr Athro Dyfrig Hughes FLSW, Athro Ffarmacoeconomeg, Y Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau;

Yr Athro John G Hughes FBCS FLSW, Is-Ganghellor, Prifysgol Bangor; cyn Ddeon y Gyfadran Gwybodeg, Prifysgol Ulster, a Llywydd Prifysgol Genedlaethol Iwerddon, Maynooth;

Yr Athro Jerry Hunter FLSW, Athro'r Gymraeg a Chyfarwyddwr Ymchwil (Diwylliant), Pontio;

Yr Athro Thomas Watkin FLSW, Athro Anrhydeddus y Gyfraith, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Caerdydd; cyn Brif Gwnsler Deddfwriaethol Cymru.

Etholir i Gymrodoriaeth y Gymdeithas Ddysgedig drwy drefn o enwebiadau gan Gymrodyr cyfredol. Mae ar agor i ddynion a menywod o bob oed ac o bob grŵp ethnig:

- sydd â hanes clir o ragoriaeth a chyflawniad mewn unrhyw un o'r disgyblaethau academiaidd, neu, a hwythau'n aelodau o'r proffesiynau, y celfyddydau, diwydiant, masnach

neu wasanaethau cyhoeddus, sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig i fyd dysg; ac

- sydd yn preswyllo yng Nghymru, neu sydd yn unigolion sydd wedi'u geni yng Nghymru ond sy'n preswyllo mewn man arall, neu sydd fel arall â chyswllt penodol â Chymru.

Etholiad 2013 yw'r drydydd mewn proses dreigl tuag at adeiladu Cymrodoriaeth gref, gynrychioladol. Bydd y Gymdeithas yn parhau i ganolbwyntio ar ragoriaeth a chyflawniad ac felly'n sicrhau bod ei Chymrodoriaeth yn cynrychioli'r gorau o'r hyn y gall Cymru ei gyflawni yn y prif ddisgyblaethau academiaidd ■

CHARLES YN RHOI O HYD

Yn ddiweddar, cyrhaeddodd aelod o staff yr Ystadau garreg filltir o bwys, wrth iddo roi gwaed am y 50fed waith.

Meddai Charles Brimecombe: "Dechreuais i roi gwaed tua chanol yr 80au; Mi es i gyda chwpl o'r dynion eraill o'r gwaith. Mae Rhowch Waed yn ymweld â'r Brifysgol ychydig o weithiau bob blwyddyn, felly mae'n gyfleus iawn.


"Rwy'n edrych ymlaen yn wirioneddol at roi heddiw; hon fydd y 50fed waith imi roi. Mae'n dda gwybod fy mod yn helpu rhywun; pwy ŵyr efallai fy mod wedi helpu 50 o bobl!"

Dechreuodd Charles, o Fiwmares, weithio yn y Brifysgol ar ôl gadael yr ysgol ym 1972. Cychwynnodd ei yrfa â'r Adran Ystadau, gan ofalu am diroedd y Brifysgol. Ym 1989, bu'n gweithio fel swyddog diogelwch ac, ers 2010, mae Charles yn gweithio'n rhan-amser yn is-adran y post, gan ddsbarthu a chasglu post o gwmpas y Brifysgol.

Mae Charles hefyd yn gwasanaethu fel diffoddwr tân rhan-amser gyda Gwasanaeth Tân Biwmares.

Mae rhoddwyr gwaed yn gwneud rhywbeth gwych pan fyddant yn rhoi gwaed. Heb roddwyr gwaed, ni fyddai llawer o gleifion yn fyw heddiw. Mae Tim Rhowch Waed y GIG yn ymweld â Phrifysgol Bangor yn aml i gynnal sesiynau ar gyfer staff, myfyrwyr ac i'r cyhoedd yn gyffredinol.

Os hoffech roi gwaed, dysgwch pa bryd y byddant yma nesaf: blood.co.uk/SessionSearcher/ShowAjaxResults.aspx ■



Charles Brimecombe

SPECTACL UNIGRYW DAN FANER PONTIO



No Fit State Circus

Bellach yn ei ail dymor llwyddiannus, cynhelir sesiynau wythnosol prosiect celfyddydau perfformio BLAS Pontio yn ysgolion Hiracl a Glancegin o dan arweiniad Mared Huws a Manon Wyn Williams, a dwy fyfyrwraig Cymraeg o Brifysgol Bangor.

Mae'r gwaith yn bwydo mewn i ymgyrch i ddatblygu cynulleidfa o blith pobl ifanc ar gyfer Pontio. O dan arweiniad hwyluswyr ysbrydoledig, mae 40 o blant blwyddyn 4 a 5 o gefndiroedd diwylliannol amrywiol yn cael modd i fyw yn dysgu am sgiliau perfformio: sut i gymeriadu, taflu llais, a dyfeisio sgript.

Mae sawl tamaid i aros pryd yn digwydd yn siop Pontio ar y stryd fawr dros y misoedd nesaf, a hynny ar ffurf gweithdai barddoni a drymio, sesiynau Stori a Chân a phrofiadau dawns rhyngweithiol digidol. Mae'r siop ar agor bob dydd o 10.00 tan 3.00 Llyn i Mercher a Sadwrn a 9.00 tan 3.00 dydd lau a Gwener. Galwch heibio!

Uchafbwynt mawr y tymor hwn yw BIANCO, cynhyrchiad syrcaes gyfoes ddiweddaraf y cwmni syrcaes rhyngwladol *No Fit State Circus* fydd yn perfformio ar Ffordd y Traeth, 12-20 Gorffennaf. Comisiynwyd y

sioe gan yr *Eden Project*, canolfan a ddyluniwyd gan Grimshaw, penseiri Pontio. Mae naw perfformiad i gyd, a bydd digwyddiad proffil uchel fel hyn yn gymorth mawr i adeiladu bas data ar gyfer y Ganolfan, ond uwchlaw hyn yn gyfle euraid i ddenu cymunedau Bangor, myfyrwyr, staff y Brifysgol ac ymwelwyr a'r ardal at ei gilydd i fwynhau spectacl gwefreiddiol unigryw, dan faner Pontio.

Archebwch eich tocynnau nawr: 01248 382828 neu www.pontio.co.uk ■

NEWYDDION Y CYNGHRAIR STRATEGOL

Mae'r Brifysgol yn parhau i ddatblygu ei chynghrair gydag Aberystwyth ac yn ystyried y posibilrwydd o barhau i gydweithio'n agos mewn perthynas â rhai agweddau ar ein gweithgareddau. Mae sawl maes yn cael eu datblygu ar draws Ymchwil a Menter, Gwasanaethau a Rennir a Dysgu ac Addysgu a gwelir isod rai enghreifftiau o'r gwaith sydd ar y gweill.

Rheoli ynni: Mae tîm Ystadau Bangor yn rhannu arbenigedd Bangor mewn rheoli ynni gydag Aberystwyth ac yn recriwtio doniau newydd i'w tîm Ystadau.

Harmoneiddio Prosesau Datblygu Polisi: Ffurfiwyd gweithgor newydd i harneisio'r arferion gorau ym mhob sefydliad mewn dull cyffredin o weithredu wrth ddatblygu polisiâu a phrosesau ar draws y prifysgolion, gan ddechrau yng Nghofrestrfa Academaidd y ddwy brifysgol.

Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014: Gan adeiladu ar gryfderau ein cydweithio o ran ymchwil, mae'r prifysgolion yn datblygu cyflwyniadau REF ar y cyd mewn meysydd penodol

i sicrhau bod ein hymchwil yn cael yr effaith strategol mwyaf posib.

Rhwydwaith Adnoddau Naturiol Cymru: Mae'r prifysgolion yn datblygu rhwydwaith ymchwil strategol, rhwydwaith Adnoddau Naturiol Cymru, a fydd yn denu £6 miliwn i'r gwyddorau naturiol ac amgylcheddol yng Nghymru.

Cwmni Ymgynghori ar y cyd: Mae'r prifysgolion wedi lansio cwmni ar y cyd fel dull o ddarparu gwasanaethau ymgynghori ac mae'n datblygu polisiâu a strategaethau i wella ein gallu yn y maes hwn.

Polisi Eiddo Deallusol Cyffredin: Mae'r ddwy brifysgol wedi cytuno

ar bolisi newydd i ymdrin ag eiddo deallusol a fydd ar gael o'r Swyddfa Ymchwil a Menter.

Gwella Cyflogadwyedd:

Cynhaliodd Bangor gynhadledd gwella cyflogadwyedd i aelodau o'r gymuned academiaidd sydd â diddordeb arbenigol mewn cefnogi cyflogadwyedd ymhlith ein myfyrwyr i geisio rhannu arferion gorau gydag Aberystwyth.

Varsity: Cynhaliodd Undebau'r Myfyrwyr eu cystadleuaeth ryng-golegol flynyddol unwaith eto. Aberystwyth oedd yn cynnal y gystadleuaeth eleni a nhw oedd yr enillwyr ond cafwyd rhai perfformiadau rhagorol gan fyfyrwyr Bangor.

Teithio'r Byd: Mae'r ddwy brifysgol wedi mabwysiadu'r fenter teithio'r byd i hybu iechyd a lles a chyflwynwyd agwedd gystadleuol gyda'r prifysgolion yn cystadlu yn erbyn ei gilydd o ran nifer y camau a'r milltiroedd gyda Bangor yn arwain o 11,000 milltir dros y cyfnod 60 diwrnod ■

CYFLE DECHE I DDARLLEN LLYFRAU YSGOLHEIGAIDD YN Y GYMRAEG

Y mae project newydd yn Uned Technolegau Iaith (Canolfan Bedwyr) yn mynd i roi mynediad o'r newydd i lyfrau Cymraeg allweddol i ysgolheictod sydd allan o brint. Bwriad project DECHE (Digido, E-gyhoeddi a Chorpws Iaith) ag ariannir gan Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yw creu e-lyfrau o destunau Cymraeg nad oes modd cael mynediad iddynt yn hawdd, megis dramâu ein prif ddramodwyr, a gweithiau athronyddol a llenyddol.

Penodwyd Mared Roberts yn swyddog ar gyfer y project, fydd yn rhedeg am flwyddyn i ddechrau. "Mae cymaint o lyfrau academiaidd Cymraeg gwerthfawr sydd wedi bod allan o brint. Gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn rhoi hwb newydd i ysgolheictod trwy gyfrwng y Gymraeg, bydd eu cyhoeddi unwaith eto yn gymorth mawr i staff a myfyrwyr.

"Ein bwriad yw ail-gyhoeddi 40 llyfr o'r newydd eleni. Bydd y rhain ar gael yn rhad ac am ddim i fyfyrwyr Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol drwy gyfrwng Y Porth. Gweler: porth.ac.uk/cy/



Mared Roberts a Delyth Prys.

"Y mae cyhoeddi'r testunau hyn fel e-lyfrau yn hwyluso'r broses o chwilio o'u mewn yn ogystal. Gobeithir cynnwys geiriadur termau gyda diffiniadau i dermau anodd yn yr e-lyfrau hyn gyda'r modd i ymchwilywyr gynnwys eu nodiadau eu hunain hefyd.

"Y mae 'na ail bwrpas pwysig i'r project, sef creu corpws ymchwil chwiliadwy ar sail y testunau digidol. Mae Uned Technolegau Iaith yn arloesi ym maes corpws electronig i'r Gymraeg."

Meddai Delyth Prys, Pennaeth yr Uned: "Gallai'r corpws sy'n deillio o lyfrau'r project esgor

ar raglen ymchwil annibynnol ar gyfer safoni termau, gwella geiriaduron Cymraeg, deall teithi'r iaith, gwahanol gyweiriau iaith, gramadeg yr iaith, a datblygu ysgrifennu academiaidd safonol Cymraeg."

Y mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn y broses o holi ysgolheigion i enwebu testunau ar gyfer eu digido er mwyn cynnull rhestr gyhoeddi i'r project ■



NIGEL YN MYND BEN DRAW'R BYD

Mae'r Athro Nigel John o'r Ysgol Cyfrifiadureg wedi ennill Cymrodoriaeth Churchill glodfawr o Ymddiriedolaeth Goffa Winston Churchill. Mae pob cymrawd yn cael grant fel y gall fynd dramor i astudio meysydd o ddi-ddordeb amserol a phersonol, cael gwybodaeth a dod â'r arfer gorau yn ôl er budd pobl eraill, eu proffesiwn a'u cymuned yn y DU. Bydd Nigel yn defnyddio'r grant ar gyfer ymweliad pedair wythnos â Singapôr ac Awstralia, lle bydd yn cyfarfod â grwpiau ymchwil eraill sy'n ymwneud â delweddu ac efelychu meddygol. Mae'n bwriadu mynd ar y daith ym Mehefin, gan

ddechrau yn y Labordy Mathemateg Drochol ym Mhrifysgol Dechnolegol Nanyang, Singapôr. Mae'r gwaith a wneir yno'n cynnwys arthrosogopeg rithwir a segmentiad rhyngweithiol ar ddata MRI ar yr ymennydd.

Yna, bydd y daith yn symud ymlaen at y Grŵp Delweddu Biofeddygol yng Nghanolfan Ymchwil e-lechyd Awstralia yn Brisbane. Yno, mae'r Tim Efelychu Llawfeddygol wrthi'n adeiladu efelychwyr ar gyfer hyfforddi ym meysydd colonosgopeg a broncosgopeg, yn ogystal â chymwysiadau wrth gynllunio o flaen llawdriniaethau.

Bydd Nigel yn dysgu'r arferion gorau gan y grwpiau hyn – arferion y gall ddod â hwy yn ôl i'r Grŵp Delweddu a Graffeg Feddygol yn yr Ysgol Cyfrifiadureg. Caiff projectau a phapurau ar y cyd eu trafod a'u cynllunio yn ystod yr ymweliad. Yn 2013, cafodd Ymddiriedolaeth Goffa Winston Churchill 1,161 o geisiadau a dyfarnu 125 o gymrodoriaethau.

"Mae'n bleser gen i gael yr anrhydedd o dderbyn y wobr hon", meddai Nigel, "a hoffwn annog eraill i wneud cais am gymrodoriaeth yn y dyfodol, oherwydd y cyfle gwych y mae'n ei gynnig" ■



Vicky (chwith) yn chwarae gyda tîm Cenedlaethol Cymru llynedd.

VICKY YN MYND AM FUDDUGOLIAETH

Mae hi hefyd wedi bod yn chwarae gyda thîm Celtiaid Caernarfon sydd newydd ennill cynghrair pêl-fasged gogledd Cymru ar ôl ennill tair ar ddeg gêm a cholli dwy.

Mae'r tîm hefyd wedi mynd drwodd i rownd derfynol y gwpan a byddant yn chwarae yn erbyn *Mold Magic* ym Mehefin. Os bydd Caernarfon yn ennill y gêm, byddant yn mynd ymlaen i gynrychioli Gogledd Cymru yn erbyn y timau gorau yng nghystadleuaeth cwpan Terry Price.

Mae dweud bod Vicky Gottwald, sy'n ddarlithydd yn yr Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, lechyd ac Ymarfer yn hoffi pêl-fasged yn ddweud cynnil dros ben.

Mae Vicky wedi bod yn chwarae pêl-fasged ers oedd yn 16 oed. Nofiwr oedd hi cyn hynny ac ni ddechreuodd chwarae'r gêm o ddifrif hyd nes iddi ddod i Brifysgol Bangor yn 2003. Yn

ystod y deng mlynedd diwethaf mae hi wedi chwarae i amryw o dimau ac mae hi wedi chwarae ar dîm Prifysgolion Cymru bedair gwaith yng Ngemau Prifysgolion Prydain. Mae Vicky hefyd yn aelod o dîm cenedlaethol Cymru ac mae hi wrthi'n paratoi gyda'r tîm ar hyn o bryd at bencampwriaeth Ewrop 2014 ar ôl curo Gibraltar, Moldova ac Azerbaijan yr haf diwethaf.

Bydd Vicky yn gwneud rhywfaint o waith hyfforddi gyda thîm merched y Brifysgol y tymor nesaf hefyd. Dywedodd, "Rwy'n ddiolchgar iawn i Richard Bennett, y Cyfarwyddwr Chwaraeon, a'r holl staff ym Maes Glas a hoffwn ddiolch iddynt am eu cefnogaeth barhaus, gan na fyddai'n bosib i mi chwarae ar y safon hon heb eu cefnogaeth nhw" ■

Arddangosfa i ddathlu canmlwyddiant geni R S Thomas

There are places in Wales I don't go:
Reservoirs that are the subconscious
Of a people, troubled far down
With gravestones, chapels, villages even;



**Rhodfa Ystafell y Cyngor
11 Ebrill – 20 Rhagfyr 2013**

**Canolfan Ymchwil R S Thomas
Archifau a Chasgliadau Arbennig**



Tim Cemeg cyn yr her.

HER WEIREN WIB TÎM CEMEG I GODI ARIAN I DÛ GOBAITH

Aeth tîm o'r Ysgol Cemeg i chwilio am wefr ar y weiren wib yn ddiweddar er mwyn codi arian at hosbis plant Tŷ Gobaith. Roedd y tîm dewr a wynebodd her y weiren a'r tywydd i godi arian at elusen leol yn cynnwys israddedigion, myfyrwyr ôl-radd a doethuriaeth, a staff academiaidd a gweinyddol yr ysgol.

Mae'r weiren wib a agorwyd yn ddiweddar yn croesi uwchben Chwarel y Penrhyn ym Methesda. Y ddwy weiren yw'r rhai hiraf a'r ail hiraf yn Ewrop. Oherwydd gwyntoedd cryfion 45 milltir yr awr a'r glaw trwm dim ond rhan gyntaf yr her, sef y weiren leiaf, a wnaed gan y tîm ar y diwrnod. Ond cawsant fynd yn ôl yn rhad ac am ddim ar ddiwrnod arall i gwblhau rhan olaf a hiraf yr her, sef y weiren fawr filltir o hyd a all gyrraedd cyflymder o dros 90 milltir yr awr.

Meddai Dr Mike Beckett, Pennaeth yr Ysgol Cemeg, "Dwi ddim yn siŵr

sut llwyddodd y tîm yn y swyddfa i fy argyhoeddi bod hwn yn syniad da! Dwi ddim yn hoff iawn o uchder a gyda'r gwyntoedd cryfion a'r glaw trwm roedd mynd ar y weiren fach yn gamp ynddo'i hun. Diolch yn fawr iawn i dîm *Zip World* a ofalodd amdanom mor dda, gwnaed pob un o'r gwiriadau diogelwch yn hollol drylwyr a oedd o gymorth i'r rhai ohonom oedd yn nerfus am wneud yr her.

"Rydym yn ddiolchgar iawn i berchnogion y weiren wib am adael i ni gwblhau'r her ar ddiwrnod arall yn rhad ac am ddim a hefyd am eu proffesiynoldeb a'u cymorth wrth drefnu ac ymgymryd â'r her. Roedd gweithwyr y weiren wib yn wych."

Mae'r tîm eisoes wedi llwyddo i godi dros £2,000.

Os hoffech gyfrannu at yr elusen deilwng hon ewch i dudalen *Just Giving* y tîm Cemeg: justgiving.com/ChemistryZipWireChallenge ■

GARY'N MENTRO AR Y BYNJI



Llongyfarchiadau i Gary Edwards, o'r Swyddfa Ddiogelwch, a wnaeth naid bynji i godi arian tuag at Adran Haematoleg Ysbyty Gwynedd. Mae gwraig Gary, Sally, wrthi'n cael triniaeth broffesiynol gan staff yr Uned ar ôl cael ei diagnosio â lewcemia dair blynedd yn ôl. Rhaid i Sally fynd i sesiynau rheolaidd yn yr Uned, i asesu sut y mae ei meddyginiaeth yn rheoli'r salwch. Gan fod rhai o'i deulu agosaf a'i ffrindiau hefyd yn yr un sefyllfa, roedd Gary yn teimlo bod angen gwobrwyo'r staff am eu gofal a'u harbenigedd proffesiynol. Gwneud naid bynji ym Mhier Bangor oedd yr unig ffordd y gallai Gary feddwl amdani o gynorthwyo'r Uned. Cododd £650, a hoffai ddiolch i'w ffrindiau a'i gydweithwyr am gyfrannu at y gronfa. Oddi ar hynny, mae Gary wedi cyflwyno siec i nyrsys Ward Alaw ■



Dylid anfon unrhyw eitem i'w cynnwys yn y rhifyn nesaf o Newyddlen erbyn 9/9/13 at Swyddfa'r Wasg: ywasg@bangor.ac.uk © Prifysgol Bangor

Cyhoeddir Newyddlen gan Adran Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata o'r Brifysgol. Cysylltwch â Swyddfa'r Wasg am ganiatâd i atgynhyrchu unrhyw erthygl. Ceir newyddion diweddar o'r Brifysgol ar bangor.ac.uk/newyddion



@PrifysgolBangor @NewyddionBangor